Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf: Tendr Adolygu Cwynion 2022

**Amseru:** Cyn gynted â phosibl

**Teitl:** Tendr Adolygu Cwynion 2022 – Penodiad Caffael Sancus Solutions Cyf

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Ansawdd Gwasanaeth

**Crynodeb Gweithredol:**

Fel rhan o'r rhaglen Gwella Unplygrwydd yr Heddlu, gweithredwyd Model 1 gan y 3 corff plismona lleol (h.y. Comisiynwyr Heddlu a Throseddu [CHTh]) ar gyfer Dyfed-Powys, Gwent a Gogledd Cymru – mae angen adolygu'r penderfyniad hwn, ac ystyried sut y bydd y model o ddewis yn parhau i gael ei reoli o safbwynt ymarferol.

**Argymhelliad:**

Cefndir

Ar ddydd Gwener 10 Ionawr 2020, cyflwynodd y Swyddfa Gartref ddeddfwriaeth mewn perthynas â sut y mae cwynion a wneir yn erbyn yr heddlu'n cael eu trin a gwella'r system ddisgyblu ar gyfer swyddogion. Mae'r newidiadau, a ddaeth i rym ar 1 Chwefror 2020, yn sicrhau y gellir ymdrin yn gyflym, effeithiol a chymesur â chwynion, er budd yr heddlu yn ogystal â'r cyhoedd.

Yn ogystal â symleiddio'r system gwynion, mae'r newidiadau'n golygu bod gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu fwy o ran i'w chwarae ar gyfer hybu annibyniaeth a gwella'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion. Ers 1 Chwefror 2020, os oes cwyn wedi'i chofnodi o dan Atodlen 3 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 ac mae unigolyn yn anhapus â'r canlyniad neu'r ffordd yr ymdriniwyd â'i gŵyn, caiff gyflwyno cais am adolygiad i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu perthnasol. Bydd yr adolygiad yn ystyried pa un ai a oedd y ffordd yr ymdriniwyd â'r gŵyn yn rhesymol a chymesur.

Yn bwysig, mae'r diwygiadau'n anelu i wneud y system ddisgyblu'n fwy cymesur ac annog mwy o bwyslais o lawer ar ddysgu yn sgîl camgymeriadau. Mae'r Swyddfa Gartref wedi gweithio'n agos â Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, cymdeithasau staff ac eraill er mwyn datblygu pecyn cynhwysfawr o welliannau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rôl ehangach ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, a fydd yn cryfhau annibyniaeth
- Mesurau pellach i hybu effeithiolrwydd ac annibyniaeth Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu o ran ymchwilio i bob mater difrifol a sensitif sy'n ymwneud â'r heddlu.

**Argymhelliad (parhad):**

- Canolbwyntio'r system ddisgyblu ffurfiol ar achosion o dorri safonau proffesiynol a fyddai'n arwain at gamau disgyblu ffurfiol, gan alluogi rheolwyr llinell i ganolbwyntio ar wella ymddygiadau a dysgu unigol mewn ymateb i faterion ymddygiad lefel is – yn seiliedig ar Broses Adolygu Arferion Adlewyrchol.
- Mae darpariaethau newydd ar gyfer gwella effeithlonrwydd a thryloywder ymchwiliadau camymddwyn.
- Cynyddu tryloywder apeliadau yn erbyn canfyddiadau camymddwyn drwy ddisodli'r swyddog heddlu wedi ymddeol presennol fel aelod o'r panel â lleygwr annibynnol, a chyflwyno darpariaethau newydd i wella amseroldeb ac effeithlonrwydd gweithdrefnau.

Penderfynodd y 3 corff plismona lleol (h.y. CHTh) ar gyfer Dyfed-Powys, Gwent a Gogledd Cymru weithredu Dewis 1 h.y. ar gyfer y cwynion hynny a gofnodwyd o dan Atodlen 3 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002, mae'r Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) perthnasol yn gyfrifol am adolygu'r cwynion.

Ystyriodd y 3 corff plismona lleol (h.y. CHTh) ar gyfer Dyfed-Powys, Gwent a Gogledd Cymru, y byddai angen swydd ymgynghorol er mwyn cyflawni'r rôl hon. Byddai'r rôl hon yn ystyried pob adolygiad cwyn a dderbynnir gan y SCHTh berthnasol, ac yn paratoi ymateb awgrymedig a rhesymwaith cysylltiedig i gyflwyno i'r CHTh perthnasol; er mwyn i'r CHTh perthnasol wneud penderfyniad terfynol ynglŷn â'r canlyniad. Ystyriwyd amryw o ddewisiadau, gan gynnwys:

1. Aelod o staff SCHTh yn amsugno'r rôl ymgynghorol hon fel rhan o gyfrifoldebau ei swydd
2. Cyflogi aelod staff newydd
3. Rhoi'r gwaith hwn i ddarparwr annibynnol

Ers 1 Chwefror 2020, mae'r 3 corff plismona lleol (h.y. CHTh) ar gyfer Dyfed-Powys, Gwent a Gogledd Cymru wedi gweithio ar draws Dewisiadau 1 a 3 h.y. mae'r adolygiadau wedi'u rhoi i ddarparwr annibynnol sydd wedi darparu rhesymwaith a phenderfyniad awgrymedig i'r SCHTh perthnasol; ac yna mae aelod o staff SCHTh o'r holl gyrff plismona lleol wedi amsugno'r penderfyniad terfynol a pharatoi'r canlyniad adolygiad i'w rôl, gan gynnwys gwaith dilynol mewn ymateb i unrhyw wersi a ddysgwyd/argymhellion a nodwyd.

Ystyrir mai Dewisiadau 1 a 3 yw'r rhai mwyaf ymarferol yn ariannol. Mae'r defnydd o'r ddau ddewis yn caniatáu i'r SCHTh perthnasol dderbyn argymhelliad darparwr annibynnol, ac ar yr un pryd, sicrhau bod y cyfrifoldeb ar gyfer y penderfyniad terfynol yn aros gyda'r SCHTh perthnasol.

<u>Gwaith Cydweithio</u>

O ganlyniad, cytunwyd ar broses dendr ar y cyd arall mewn perthynas â Dewis 3 – arweiniodd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys y broses hon.

**Argymhelliad (parhad):**

Trosolwg Caffael

Hysbysebwyd y broses gaffael drwy 'GwerthwchiGymru' ac roedd dogfennau caffael ar gael ar y llwyfan gyrchu electronig 'eDendroCymru'. Cafodd cyfanswm o 10 cyflenwr fynediad i'r ymarfer dendro, gyda dau gyflenwr yn darparu ymateb. Ymgymerwyd â'r gwerthusiad drwy'r Arf Wobrwyo ac roedd y panel yn cynnwys cynrychiolaeth o'r 3 SCHTh yng Nghymru, gyda goruchwyliaeth gan Adran Gaffael Heddlu Dyfed-Powys.

Sgoriwyd pob cyflenwr ar yr un set o gwestiynau, gyda rhesymwaith yn cyd-fynd â phob sgôr a roddwyd, wedi'i gwblhau gan bob cynrychiolydd SCHTh. Ar y diwedd, ystyriodd yr Adran Gaffael y sgorau a'r argymhelliad yw rhoi'r cytundeb i Sancus Solutions Cyfyngedig.

Bydd y cytundeb am gyfnod o 36 mis a bydd dewis i'w estyn am ddau gyfnod pellach o 12 mis. Bydd y cytundeb yn cychwyn ar 03/04/2022. Bydd y Cytundeb hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol, a gellir ei ddiwygio os yw pob parti'n cytuno.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Disgwylir i'r Darparwr weithio gyda'r Comisiynydd drwy gydol hyd y cytundeb er mwyn datblygu'r fframwaith o ganlyniadau mesuradwy ar gyfer y Gwasanaethau. Bydd y Darparwr yn sicrhau bod ganddo systemau a gweithdrefnau priodol mewn grym ar gyfer cipio cydymffurfiaeth â dangosyddion perfformiad allweddol ac adrodd arno yn ôl yr angen.

Ar ddyddiadau y cytunir arnynt, bydd y Darparwr yn cyflwyno adroddiad rheoli i'r Comisiynydd sy'n nodi perfformiad mewn perthynas â phob un o'r dangosyddion perfformiad allweddol. Bydd adroddiadau ar y ffurf a gynigiwyd gan y Darparwr ac a gymeradwywyd gan y Comisiynydd, a byddant yn cynnwys naratif i dynnu sylw at unrhyw faterion perfformiad, ynghyd â chamau y mae'r Darparwr yn cynnig eu cymryd er mwyn atal y problemau rhag digwydd eto. Dylai'r adroddiad gynnwys gwybodaeth berfformiad berthnasol arall hefyd, ac unrhyw faterion perthnasol neu feysydd sydd angen eu trafod ymhellach.

Monitro

Bydd monitro'n digwydd drwy ymweliadau/cyfarfodydd y cytunir arnynt. Bydd yr adroddiadau a gyflwynir gan y Darparwr yn ffurfio'r sail ar gyfer trafodaeth yn y cyfarfodydd hyn. Bydd y cyfarfod yn rhoi cyfle i'r ddau barti godi unrhyw faterion ar gyfer trafodaeth neu eglurhad. Bydd ymweliadau monitro'n caniatáu i'r Comisiynydd brofi'r gwasanaeth sy'n cael ei gyflwyno ac adolygu profiadau a lefelau bodlonrwydd defnyddwyr gwasanaeth.

Y Cynllun Heddlu a Throseddu

Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (CHTh) yn gweithredu fel llais y cyhoedd ar faterion plismona a throsedd. Maen nhw'n gyfrifol am osod y cyfeiriad strategol ar gyfer plismona o fewn eu hardaloedd heddlu unigol.

**Argymhelliad (parhad):**

Cyfrifoldeb Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yw cynnal adolygiadau annibynnol o gwynion yn erbyn yr heddlu pan ystyrir mai'r Comisiynydd yw'r corff adolygu perthnasol ac mae'r achwynydd yn gwneud cais ffurfiol am adolygiad mewn perthynas â'r ffordd yr ymdriniodd yr Heddlu â'i gŵyn.

Mae hyn yn ffurfio rhan o flaenoriaethau'r Comisiynydd, h.y. mae dioddefwyr yn cael eu cefnogi ac mae niwed yn cael ei atal.

Cynnig

Mae Model 1 dal yn cael ei ystyried fel yr ymagwedd o ddewis. Mae hyn yn golygu mai'r Gwasanaeth Heddlu unigol fydd yn rheoli cwynion. Yn unol â'r ddeddfwriaeth, bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n gyfrifol am ystyried y canlynol yn ddiduedd:

- Pa un ai a oedd y cais am adolygiad yn ddilys
- Pa un ai a oedd canlyniad y gŵyn yn rhesymol a chymesur
- Unrhyw argymhellion y dylid eu gwneud i'r Heddlu o ganlyniad i'r ffordd y cafodd y gŵyn ei thrin a/neu ganlyniad y gŵyn

Mae'r rheswm am y penderfyniad hwn dal yn seiliedig ar gyfrifoldebau statudol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, fel y'u ceir o fewn Gorchymyn Protocol Plismona 2011. Mae adran 17 yn nodi bod gan y CHTh y ddyletswydd a'r pŵer cyfreithiol i graffu ar berfformiad cyffredinol yr Heddlu, ei gefnogi a'i herio, gan gynnwys yn erbyn y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt o fewn y Cynllun.

Wrth ystyried y cyfrifoldeb hwn, mae gofyniad ar gyfer amhleidioldeb ac annibyniaeth o'r cofnodi cwyn gwreiddiol. Er mwyn cynnal adolygiad annibynnol o gŵyn, ystyrir mai Dewis 1 yw'r unig fodel sy'n darparu'r tryloywder a'r annibyniaeth sy'n ofynnol er mwyn galluogi'r CHTh perthnasol i gydymffurfio'n effeithiol â'i ddyletswydd statudol i graffu ar gwynion sy'n cael eu trin gan ei wasanaeth heddlu unigol a'u herio.

Ymhellach i'r uchod, mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n awgrymu y dylid rhoi'r cytundeb i Sancus Solutions Cyfyngedig am gyfnod o 36 mis, gyda'r dewis o'i estyn am ddau gyfnod pellach o 12 mis, â'r cytundeb yn cychwyn ar 03/04/2022. Bydd y cytundeb hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol a gellid ei ddiwygio os yw pob parti'n cytuno.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Medraf gadarnhau fy mod i wedi ystyried pa un ai a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu niweidiol yn y mater hwn ai peidio, ac yn cymryd y penderfyniad arfaethedig mewn cydymffurfiaeth ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus. Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 2/3/2022